| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Cyngor |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 4 Gorffennaf 2017 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Y Cynghorydd Hilditch-Roberts / Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant |
| Awdur yr Adroddiad: | Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant |
| Teitl: | Polisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Darparu adborth yn dilyn ymgynghori ar Bolisi Cludiant i Ddysgwyr newydd Sir Ddinbych a cheisio awdurdodiad i fabwysiadu'r polisi o 1 Medi 2018.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I Aelodau ystyried yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd gan Gefnogaeth Addysg a chadarnhau a all mabwysiadu'r polisi olygu mynd ymlaen i'r cam nesaf gyda'r Cabinet.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

3.1 Cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Effaith ar Les Asesu (**Atodiad 5**) fel rhan o'u hystyriaeth; ac

3.2 - Ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ynddynt.

- Argymell i'r Cabinet bod y polisi'n cael ei gymeradwyo.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### 4.1 Cefndir

4.1.1 Cyflwynwyd adroddiad i Bwyllgor Archwilio Cymunedau ar 2 Chwefror 2017 i ddarparu manylion y polisi newydd. Yn y cyfarfod hwn, cefnogodd yr Aelodau yr ymagwedd a amlinellir ac awdurdodwyd Cefnogaeth Addysg i ymgymryd â'r cyfnod ymgynghori; gydag Asesiad o Effaith ar Les yn cael ei gynnal i ddechrau. Gofynnwyd hefyd bod canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei ddwyn yn ôl i gyfarfod archwilio yn y dyfodol.

4.1.2 Felly, cafodd adroddiad ei roi gerbron y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 15 Mehefin 2017. Cynhaliwyd yr ymarfer ymgynghori rhwng 13 Mawrth a 30 Ebrill 2017. Mae'r polisi drafft a'r cwestiynau ymgynghori a ddatblygwyd gan Gefnogaeth Addysg i'w gweld yn **Atodiad 1 a 2** yn y drefn honno.

4.1.3 Yn y cyfarfod Archwilio ar 15 Mehefin 2017, penderfynodd yr Aelodau

(i) gadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 5);
(ii) Bod Atodiad 1 y Polisi drafft yn cael ei ddiwygio i gynnwys Ysgol Brynhyfryd yn y golofn 'ysgol addas agosaf arall' ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Carrog ac Ysgol Caer Drewyn;
(iii) bod swyddogion yn datblygu gweithdrefn, ymhle gallai ysgolion, pe baent yn dymuno symud o glwstwr penodol, gymryd rhan mewn proses gyda'r Awdurdod Lleol i ystyried eu trefniadau; ac adrodd ar y canfyddiadau hyn i'r Pwyllgor maes o law; ac
(iv) yn amodol ar yr uchod, argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r polisi i fod yn weithredol o fis Medi 2018 ac y caiff ei fonitro.

## 4.2 Yr Ymgynghoriad

4.2.1 Anfonwyd ceisiadau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, ynghyd â'r dogfennau perthnasol at:

- Holl rieni disgyblion ysgolion Sir Ddinbych; dros 13,000 o lythyrau wedi'u hanfon
- Holl benaethiaid a Chyrff Llywodraethu Sir Ddinbych
- Holl reolwyr busnes a chyllid ysgolion Sir Ddinbych
- Penaethiaid ysgolion uwchradd ger ffiniau Sir Ddinbych
- Holl Gynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych
- Holl Gynghorau Cymuned Sir Ddinbych
- Pennaeth Addysg yn Wrecsam, Sir y Fflint, Conwy, Powys a Gwynedd.
- Cynrychiolwyr esgobaeth berthnasol
- Aelodau Seneddol Lleol
- Aelodau Cynulliad Lleol
- Cynrychiolwyr Undebau Sir Ddinbych
- Holl staff Sir Ddinbych
- Colegau Llandrillo a Chambria
- Ymgynghoriad disgyblion drwy gynghorau ysgolion uwchradd
- GwE
- Sustrans
- Roedd dogfennau hefyd ar gael yn holl Lyfrgelloedd Sir Ddinbych
- Trefnwyd ymweliadau i Gyrff Llywodraethu ar gais
- Roedd dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Sir Ddinbych
- Darparwyd hysbysiadau ar gyfryngau cymdeithasol

4.2.2 Cyn anfon y ddogfennaeth ar gyfer ymgynghori, nodwyd y cafodd enw'r polisi ei ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith bod cludiant ôl 16 wedi ei gynnwys hefyd. Felly enw'r polisi drafft yw '**Polisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych**'.

4.2.3 O'r ymgynghoriad ar-lein derbyniwyd 64 o ymatebion. Cafwyd 15 o ymatebion pellach, naill ai drwy'r post, e-bost neu sgwrs. Mae'r ymatebion unigol wedi cael eu hasesu a'u categoreiddio. Nodwyd fod rhai ymatebion yn cwmpasu aml faterion, y mae pob un ohonynt wedi cael eu cofnodi a'u cyfrif yn unigol. Dangosir y rhain yn **Atodiad 3**.

**Adborth o'r ymgynghoriad**

4.2.4 Cafodd y polisi adborth cadarnhaol, gyda nifer o ymatebion yn nodi ei fod yn darparu gwell eglurder o'r fersiwn ddiwethaf, a bod cydnabod perthnasau bwydo rhwng ysgolion, a darparu cludiant am ddim ar y sail hwnnw, yn gam cadarnhaol iawn a oedd yn cefnogi lles plant.

4.2.5 Codwyd y mater o gategoreiddio ysgolion Cymraeg, yn enwedig mewn perthynas ag Ysgol Bro Cinmeirch (Pentre Llanrhaeadr). Mynegwyd pryderon efallai y bydd disgyblion yn symud i Ysgol Pant Pastynog (Prion) i fod yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim i Ysgol Glan Clwyd (Llanelwy). Cafwyd pryderon hefyd y gellid gwneud gofynion o'r fath ar gyfer Ysgol Pant Pastynog o dan drefniadau yn seiliedig ar Ffydd gan ei bod yn ysgol a reolir yn wirfoddol gan yr Eglwys yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar argaeledd Lleoedd; er y byddai'i Awdurdod yn rhoi disgyblion yn yr ysgol Ffydd agosaf pe ceid ceisiadau o'r fath.

Cafwyd gofynion hefyd i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion Ysgol Bro Cinmeirch i fynd i Ysgol Glan Clwyd yn ôl disgresiwn a/neu y dylai'r ysgol ddod yn rhan o glwstwr Glan Clwyd.

4.2.6 Oherwydd natur gadarnhaol y newidiadau a wnaeth o ran perthnasau ysgolion sy'n bwydo, cafwyd nifer o sylwadau yn ymwneud â gweithredu'r polisi ym mis Medi 2017. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith y bydd rhai yn talu am gludiant trwyddedig yn 2017/18 pan y gall fod am ddim o 2018/19. O dan y ddeddfwriaeth, ni all newidiadau i bolisi cludiant yr Awdurdod ddod yn weithredol tan fis Medi 2018.

4.2.7 Holwyd am gost consesiynau a /neu gonsesiwn wedi'i warantu. Caiff yr agwedd ei thrafod gyda Chludiant Teithwyr er mwyn sicrhau y cawn ein meincnodi yn erbyn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, er bod y costau hyn yn ddibynnol iawn ar amgylchiadau lleol.

4.2.8 Cafwyd nifer o ymatebion nad oeddent yn cytuno â rhai agweddau sylfaenol y gofynion deddfwriaethol ymhle mae'r Awdurdod yn gweithredu; megis yr ysgol

addas agosaf neu'r rheolau'n ymwneud â chludiant dros 2 neu 3 milltir ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn y drefn honno. Ni all Sir Ddinbych newid y rhain.

4.2.9 O ran llwybrau peryglus, roedd nifer o sylwadau wedi cydnabod bod yr Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol i'r materion a godwyd yn 2015 yn y polisi hwn. Gofynnodd rywfaint hefyd i bob llwybr drwy'r Sir gael eu hasesu, nid dim ond pan fydd cais am gludiant newydd yn dod i law. Yn logistaidd, byddai cais o'r fath yn anodd ei gymhwyso; fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod broses gadarn ar waith ar gyfer cynnal asesiadau ar yr holl lwybrau newydd, ac ar hyn o bryd rydym wedi asesu a chofnodi dros 150 o lwybrau peryglus.

**Ymatebion gan Gynghorau Ysgol**

4.2.10 Diolch i gydweithwyr yn nhîm Rhwydwaith 14-19 Sir Ddinbych, cynhaliwyd sesiynau gyda disgyblion ysgol mewn 6 ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn i'w weld yn **Atodiad 4**.

4.2.11 Cafwyd 73 o ymatebion o'r sesiynau hyn a bu i'r broses ddarparu fforwm priodol i ddisgyblion leisio'u barn. Croesawyd y polisi presennol a derbyniwyd sawl sylw cadarnhaol. Cafwyd hefyd sylwadau penodol a adlewyrchodd yr ymgynghoriad ar-lein, a bydd y Gwasanaethau Cefnogi Addysg / Teithwyr yn cymryd camau dilynol ac yn darparu adborth i'r cynghorau ysgol yn y dyfodol.

**Newidiadau Arfaethedig Eraill**

4.2.12 Yn dilyn canllawiau diweddar gan Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, bydd y broses apeliadau yn y polisi newydd yn cael ei diwygio fymryn. Awgrymir yn Eu canllawiau arfer orau y dylai fod yn broses apelio 2 gam, gyda swyddogion yn asesu'r broses apelio i ddechrau, a cham 2 yn banel apeliadau y gall rhieni / gofalwyr fod yn bresennol. Bydd y broses hon yn cael ei mabwysiadu yn y Polisi Cludiant i Ddysgwyr newydd.

**Crynodeb**

4.2.13 Darparodd y broses ymgynghori adborth gwerthfawr ar sawl maes. Fe'i ystyriwyd yn welliant sylweddol ac yn ymagwedd sy'n fwy cytbwys na'r polisi blaenorol.

4.2.14 Mae'r holl sylwadau unigol a wnaed, sydd yn yr Atodiadau, wedi'u nodi. Bydd rhai awgrymiadau ar gyfer mân welliannau yn cael eu cynnwys ac mae Cludiant i Deithwyr hefyd wedi cael gwybod am unrhyw faterion penodol a godwyd yn ymwneud â'u swyddogaethau.

**4.3 Camau Nesaf**

4.3.1 Yn dilyn y cam ymgynghori, roedd y llinell amser wreiddiol yn gofyn bod y polisi'n cael ei gwblhau cyn diwedd mis Mehefin 2017, gyda'r polisi'n cael ei gadarnhau gan y Cabinet cyn mis Medi 2017. Gellir wedyn rhoi'r polisi ar waith o fis Medi 2018.

4.3.2 Cynigir nad oes angen i'r polisi ei hun a'r strwythur newid yn dilyn yr ymgynghoriad a bod Aelodau'n rhoi cymeradwyaeth i swyddogion fynd ymlaen â phroses i fabwysiadu a chadarnhau'r polisi drwy'r Cabinet.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r gwasanaethau a ddisgrifir yma oll yn gefnogol i flaenoriaeth "Gwella Addysg".

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Disgwylir y bydd cost y gwasanaeth yn cynyddu i fodloni'r gofynion statudol o dan Fesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r newidiadau yn y polisi. Fel y crybwyllwyd yn y cyfarfod Archwilio blaenorol, mae Cefnogaeth Addysg yn gweithio gyda Chludiant Teithwyr ar oblygiadau cost y drafft newydd, yn enwedig y trefniadau ysgolion bwydo arfaethedig. Fodd bynnag, mae sicrhau bod cyllideb cludiant ysgol wedi'i graddio'n gywir i fodloni'r gofynion statudol yn bwysig iawn. Tynnwyd sylw at bwysau cyllidebol posibl o £300k ac mae wedi ei ariannu fel rhan o gyllideb gymeradwy'r Cyngor ar gyfer 2017/18. Ni fydd y gost benodol yn eglur nes bo'r contractau newydd wedi'u cadarnhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Nodir canfyddiadau'r Asesiad o Effaith ar Les yn Atodiad 5 ac fe'u darparwyd fel rhan o'r broses ymgynghori hefyd.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Cyflwynwyd adroddiad blaenorol gerbron y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Chwefror a mis Mehefin 2017. Gofynnwyd i holl Aelodau'r Cyngor gymryd rhan yn unigol yn y broses ymgynghori.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig fod gan y cyngor bolisi cludiant priodol ar waith. Cytunodd Aelodau Etholedig yn wreiddiol i adolygu'r Polisi Cludiant yng Ngweithdy Rhyddid a Hyblygrwydd yr Aelodau a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2014. Mae'r polisi diwygiedig a gyflwynwyd ar gyfer yr ymgynghoriad yn estyniad o'r gwaith hwn. Mae cyllid ychwanegol wedi'i gytuno fel rhan o gyllideb 2017/18 er bydd y costau gwirioneddol yn dod yn fwy eglur pan y cadarnheir y contractau yn y flwyddyn academaidd newydd.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Efallai y bydd cyhoeddusrwydd anffafriol wrth ddiweddaru'r Polisi hwn, er bod y diwygiadau yn

egluro’r rhwymedigaethau o dan Fesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ac yn ymateb i faterion a phryderon a amlygwyd yn flaenorol yn y polisi cyfredol. Mae’r ymgynghoriad wedi dangos y croesawyd y newidiadau hyn.

**11. Grym i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

11.2 Adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor sy’n nodi grymoedd Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisi.

**Swyddog Cyswllt:**
Pennaeth Addysg
Rhif ffôn: 01824 708009